# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 25 Mehefin 2020

Amser: 13.30 - 16.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6384

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Helen Mary Jones AS (Cadeirydd dros dro)<br>Mick Antoniw AS<br>John Griffiths AS<br>Carwyn Jones AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | Pauline Burt, Ffilm Cymru<br>Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr, BBC Cymru Wales<br>Mark Davyd, Music Venues Trust<br>Owen Evans, S4C<br>Phil Henfrey, Pennaeth Newyddion a Rhaglenni, ITV Wales<br>Gareth Williams, TAC<br>Sara Pepper, Prifysgol Caerdydd |
| Staff y Pwyllgor: | Martha Da Gama Howells (Ail Glerc)<br>Robin Wilkinson (Ymchwilydd)<br>Manon Huws (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Cafodd munud o dawelwch ei gynnal gan yr Aelodau i gofio Mohammad Asghar AS.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

1.2 Cadarnhaodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai David Melding AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Ni chafwyd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth ar effaith argyfwng COVID 19 ar y diwydiannau creadigol

2.1 Holodd yr Aelodau y tystion a ganlyn ynghylch Covid-19 a'i effaith ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru:

Sarah Pepper, Cyfarwyddwr yr Economi Greadigol, Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant, Prifysgol Caerdydd  
Gareth Williams, Cadeirydd, TAC  
Pauline Burt, Cyfarwyddwr, Ffilm Cymru  
Mark Davyd, Prif Swyddog Gweithredol, Yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth

## 3 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth ar effaith argyfwng COVID 19 ar ddarlledu yn y sector cyhoeddus

3.1 Holodd yr Aelodau y tystion a ganlyn am effaith Covid-19 ar ddarlledu yn y sector cyhoeddus yng Nghymru:

Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr, BBC Cymru
Phil Henfrey, Pennaeth Newyddion a Rhaglenni, ITV Cymru
Owen Evans, Prif Weithredwr, S4C

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Gohebiaeth â Bauer Media ynghylch gorsaf radio Sain Abertawe

4.2 Nododd yr Aelodau ohebiaeth â Bauer Media ynghylch gorsaf radio Sain Abertawe

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y Cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 6 Ôl-drafodaeth breifat

6.1 Cytunodd yr Aelodau i gyhoeddi adroddiad byr ar effaith argyfwng COVID 19 ar y diwydiannau creadigol